**WHC (2020) 024**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 22 Rhagfyr 2020

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Teitl:** Asesiad Clinigol o COVID-19 yn y Gymuned (diweddariad)

**Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad:** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Uwch Partneriaid a Rheolwyr Practisau Meddygon Teulu
Gwasanaeth y tu allan i oriau Meddygon Teulu
111
Timau triniaeth ddydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Angen gweithredu erbyn**: Rhagfyr 2020

**Anfonwr:** Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :** Polisi Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, Is-adran Gofal Iechyd Poblogaethau, Llywodraeth Cymru
PopulationHealthcare@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:** Dim

Annwyl Gyfeillion

**ASESIAD CLINIGOL O COVID-19 YN Y GYMUNED – DIWEDDARIAD RHAGFYR 2020**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cymunedol ar gyfer Rheoli COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ac wedyn ddiweddariad ym mis Mehefin 2020. Bellach, mae'r Fframwaith wedi cael ei adolygu a'i ddisodli gan Ganllaw cenedlaethol sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod cwrs y pandemig, ynghyd â chyfleoedd newydd ar gyfer modelau cyflawni. Mae'r datblygiadau allweddol yn y Canllaw diweddaraf yn cynnwys:

- Defnyddio profion COVID-19 yn helaeth yn y gymuned, sy'n golygu bod clinigwyr gofal sylfaenol yn gweld mwy o gleifion sydd wedi cael diagnosis a gadarnhawyd gan brawf.
- Y gallu i rannu cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19, yn dri chategori risg yr argymhellir cymryd camau gweithredu gwahanol mewn perthynas â nhw.
- Y posibilrwydd o ddefnyddio ocsimetreg pwls i helpu cleifion, y mae risg gymedrol y gallant ddioddef cymhlethdodau, i fonitro eu hunain gartref.
- Darparu trothwyon clir ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty neu benderfynu y dylent aros gartref gyda chyngor i sicrhau eu diogelwch.
- Y posibilrwydd o ddarparu profion pwynt gofal ar gyfer COVID-19 yn y gymuned cyn derbyn claf i'r ysbyty, er mwyn ffrydio cleifion a lleihau'r perygl o drosgwyddo'r feirws.

Cafodd y Canllaw ei gynhyrchu drwy gydweithrediad gan glinigwyr gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys nyrsys anadlol, gofal lliniarol, a meddygaeth anadlol. Rwy'n falch o allu cefnogi'r Canllaw hwn sydd wedi ei ddiweddaru a'i ehangu:

Canllaw Cymru gyfan ar gyfer rheoli cleifion ag achos wedi ei gadarnhau neu achos a amheuir o Covid-19 yn y Gymuned yn ystod gaeaf 2020/21

Hefyd, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cydweithio i ddatblygu'r fersiwn ddiweddaraf hon. Bydd y Canllaw'n helpu clinigwyr, nyrsys, parafeddygon, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i benderfynu pa gleifion ddylai gael eu rheoli gartref gan ddarparu cyngor penodol iddynt i'w cadw'n ddiogel, a pha gleifion ddylai gael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae'r Canllaw'n cael ei gefnogi gan fframwaith moesegol a chyngor ar gynllunio gofal ymlaen llaw a darparu gofal lliniarol yn y gymuned.

Fe'i cyhoeddir ar blatfform digidol newydd, sydd hefyd yn cynnwys deunydd addysgol a fideos hyfforddi i gynorthwyo eich tîm. Ar ôl cofrestru ar y wefan, bydd defnyddwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost, pryd bynnag y bydd y Canllaw'n cael ei ddiweddaru neu os bydd deunydd addysgol newydd yn cael ei lanlwytho.